



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Addysg a Gwella Iechyd  
Cymru (AaGIC)  
Health Education and  
Improvement Wales (HEIW)

# Canllawiau Cyllido ar gyfer Addysg Ymarfer Uwch ac Estynedig

---



**Medi 2020**

---

## Cynnwys

---

- Tudalen 3
- Cyflwyniad
  - Y Broses Gyllido
- Tudalen 4
- Dyrannu a Monitro
- Tudalen 5
- Diogelu Data
  - Cofrestru
  - Costau Teithio
  - Toriad wrth Astudio
- Tudalen 6
- Gwefannau Prifysgolion
  - Manylion cyswllt
- 



---

## Canllawiau Cyllido ar gyfer Addysg Ymarfer Uwch ac Estynedig

---

### Cyflwyniad

Mae GIG wedi bod â rhan yn "[Fframwaith Ymarfer Uwch ar gyfer Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol yng Nghymru](#) ers 2010

Gellir diffinio Ymarfer uwch fel:

*“Rôl sy'n gofyn bod Ymarferydd Cofrestredig yn meddu ar sylfaen gwybodaeth arbenigol, y sgiliau i wneud penderfyniadau cymhleth a chymwyseddau clinigol ar gyfer cwmpas ymarfer estynedig, sydd â'u nodweddion wedi'u ffurfio gan y cyd-destun y mae'r unigolyn yn ymarfer ynddo. Addysg lefel meist'r profadwy perthnasol”.*

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn darparu cymorth ychwanegol i sefydliadau i ariannu hyfforddiant a datblygiad staff y mae angen iddynt gyflawni gofynion y fframwaith ymarfer uwch, sy'n ddarparu ymarferwyr uwch neu sydd angen sgiliau estynedig.

Mae **Addysg ymarfer uwch** ar lefel meist'r a bydd naill ai'n llwybr gradd meist'r llawn mewn ymarfer uwch neu fodiwlau o lwybr gradd mewn ymarfer uwch.

Mae **Addysg ymarfer estynedig** yn fodiwlau addysg sy'n ymestyn set sgiliau a gwybodaeth un sydd wedi cofrestru y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer cofrestru ac a all fod ar lefel 5, 6 neu 7. **Nid** yw'r cyllid hwn yn ymestyn hyd at addysg ar lefel 8 neu lefel 4 ac is.

### Y Broses Ariannu

Bob blwyddyn mae AaGIC yn dyrannu swm penodol o arian i bob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth, Mae pob prifysgol yn cael gwybod pa addysg y bydd AaGIC yn ei ariannu ar ran y sefydliadau. Mae cyllid a ddyferir i fyrddau iechyd ar gyfer staff sy'n gweithio i'r bwrdd iechyd a'u partneriaid gofal sylfaenol. Mae gweithwyr iechyd anfeddygol proffesiynol a gyflogir gan feddygon teulu yn gymwys i fanteisio ar yr arian.

Bwriedir i gyllid addysg ymarfer uwch/estynedig a roddir i sefydliadau'r GIG **ychwanegu** at fuddsoddiad lleol i sicrhau bod y clinigwyr priodol yn gallu cyflawni'r gofynion addysgol fel y'u nodwyd mewn IMTPau sefydliadol, o ran gofynion addysg ymarfer uwch ac estynedig.

Mae ceisiadau am addysg ymarfer uwch/sgiliau estynedig i'w cyflwyno ar y templed comisiynu addysg drwy'r broses IMTP. Rhaid i geisiadau am gyllid gael eu gyrru gan y gwasanaeth ac wedi'u cysylltu â chynlluniau gweithlu

Sefydliadau'r GIG, a blaenoriaethau penodol sy'n cael eu pennu'n flynyddol. Mae AaGIC yn cwrdd â holl Sefydliadau'r GIG i drafod a chytuno ar yr holl geisiadau am gyllid. Mae AaGIC yn monitro'r defnydd o'r gyllideb hon yn ofalus iawn.

Rhaid i bob darpar ymgeisydd a ddewisir i gael cyllid addysg ymarfer uwch/sgiliau estynedig, sicrhau bod y gofyniad hwn wedi'i nodi fel rhan o'u proses PADR a rhaid cael cytundeb eu rheolwr llinell, a'r Adran Addysg. Noder ei bod yn hanfodol bod pob darpar ymgeisydd **yn cael cytundeb eu cyflogwr bod:**

- **Yr hyfforddiant yn cyd-fynd â blaenoriaethau addysg y sefydliad fel y nodwyd yn yr IMTP, a bod AaGIC wedi cytuno y bydd yn cael ei ariannu o'r gyllideb Ymarfer Uwch/Sgiliau Estynedig.**
- **Rhaid i gyflogwyr gytuno i'w rhyddhau i gael yr hyfforddiant, cyn bod unigolion yn cyflwyno cais am le ar gwrs gyda Darparwr Addysg.**

### **Dyrannu a Monitro**

Bob blwyddyn bydd dyraniad lleoedd ar gyfer addysg ymarfer uwch/estynedig a nodwyd yn IMTP y sefydliad yn dilyn y broses isod:

1. Bydd AaGIC yn cyfrifo nifer y swm a ddyrannir i bob sefydliad ar gyfer addysg ymarfer uwch/estynedig. Bydd AaGIC yn hysbysu sefydliadau'r GIG bob blwyddyn o'r swm fydd ar gael i'w sefydliad.
2. Bydd Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yn cwblhau ffurflen fonitro ymarfer uwch/estynedig ynghyd â gofynion addysg a rhagamcan o gostau eu sefydliad, fel y nodwyd yn eu IMTP, am y blynyddoedd academaidd sy'n dod o fewn y flwyddyn ariannol 1 Ebrill-31 Mawrth. Bydd angen cynnwys unrhyw addysg sy'n dod o fewn y flwyddyn academaidd gyfredol sy'n cychwyn ar ôl 1 Ebrill ar ffurflen fonitro'r flwyddyn ganlynol. Rhaid i ffurflenni monitro gael eu lanlwytho i'r ffolder AP/EP ar safle SharePoint AaGIC, erbyn y dyddiad y cytunwyd arno.
3. Ni chaiff ceisiadau am raglenni addysg mewn Sefydliadau Addysg Uwch y tu allan i Gymru eu hystyried na'u hariannu oni ellir dangos nad oes cwrs cyfatebol ar gael yng Nghymru. Mae cyrsiau a ariennir y tu allan i Gymru neu ag unrhyw brifysgol nad oes gennym contract â hwy ar hyn o bryd wedi'u capio ar £5000. Yn achos unrhyw gwrs sydd dros y terfyn hwn mi fydd yn rhaid sicrhau cytundeb AaGIC a bydd yn rhaid i sefydliadau ymgymryd ag unrhyw ymarferiad caffael i brynu'r cwrs. Os bydd AaGIC yn cytuno i ariannu'r cwrs bydd y costau'n cael eu had-dalu'n uniongyrchol i'r Bwrdd Iechyd neu'r Ymddiriedolaeth. Yn yr achos hwn, y bwrdd iechyd neu'r ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am dalu anfonebau.
4. Os oes unrhyw unigolyn wedi tynnu'n ôl o'r modiwl, y rhaglen MSc llawn neu wedi gadael y sefydliad, dylid rhoi gwybod i AaGIC cyn gynted â phosibl, a chofnodi hynny ar y ffurflen fonitro.

5. Bydd AaGIC yn cwrdd â holl Sefydliadau'r GIG i drafod a chytuno ar yr holl geisiadau addysg a dyraniadau'r gyllideb am y flwyddyn honno.
6. Bydd AaGIC yn hysbysu'r Sefydliadau Addysg Uwch o'r ceisiadau addysg a gafwyd gan Sefydliadau'r GIG y maent wedi cytuno i'w cefnogi ac y cytunwyd y byddant yn cael eu hariannu gan AaGIC. Bydd ffurflenni monitro yn cael eu lanlwytho i'r ffolderi prifysgolion ar safle SharePoint AaGIC.
7. Bydd y Sefydliadau Addysg Uwch yn cydweithio â sefydliadau'r GIG i sicrhau bod unigolion yn cael eu recriwtio ar y cyrsiau perthnasol.
8. Dylai Sefydliadau Addysg Uwch sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu dethol ar gyfer y cwrs yn seiliedig ar y meini prawf dethol y cytunwyd arnynt rhwng y Sefydliad Addysg Uwch a Sefydliad y GIG, a chynnwys cynrychiolaeth briodol o Sefydliadau'r GIG ar y panel dethol.
9. Bydd y Sefydliad Addysg Uwch rhoi manylion cofrestru a gadarnhawyd i AaGIC ar y ffurflenni Monitro Addysg Ymarfer Uwch/Estynedig ar y safle SharePoint erbyn yr amserlen y cytunwyd arno. Rhaid cael anfonebau erbyn 1 Chwefror bob blwyddyn gyda manylion am y cwrs priodol fel cadarnhad ategol.

## Diogelu Data

Bydd yr holl staff sy'n sicrhau lle yn cael llythyr ariannu gan AaGIC, a llythyr nawdd cofrestru. Bydd yr holl staff sy'n cael arian yn cytuno y gall AaGIC rannu eu gwybodaeth bersonol â'r darparwr addysg y maent yn astudio â hwy. Rhaid i Fyrddau lechyd ac Ymddiriedolaethau gynnwys hysbysiadau preifatrwydd yn eu proses ymgeisio i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â GDPR.

## Cofrestru

Drwy gydol eu cwrs, **RHAID** i fyfyrwyr unigol gadw eu cofrestriad proffesiynol. Dylai trefniadau lleol fod ar waith i sicrhau hyn. Mae Myfyrwyr a'u cyflogwr yn gyfrifol gyda'i gilydd am sicrhau bod eu cofrestriad proffesiynol yn parhau'n gyfredol drwy gydol eu cyfnod ar y cwrs.

## Costau Teithio

Noder mai **dim ond ffioedd y cwrs sy'n cael eu hariannu** gan AaGIC. Ni ad-delir unrhyw gostau teithio cysylltiedig.

## Toriad wrth astudio

Rhaid i sefydliadau'r GIG hysbysu AaGIC os yw unrhyw aelodau o staff sy'n cael cyllid yn absennol o'r gweithle a fydd yn golygu eu bod naill ai'n tynnu allan neu'n ddim yn bwrw ymlaen â rhaglen.

## Gwefannau Prifysgolion

### Prifysgol De Cymru

<https://www.southwales.ac.uk/search/?collection=south-wales-uni-courses&query=&f.Level%7CL=pg&f.Faculty%7CF=faculty+of+life+sciences+and+education#>

### Caerdydd

<https://www.cardiff.ac.uk/study/postgraduate/taught/courses/browse-by-school/school-of-healthcare-sciences>

<https://www.cardiff.ac.uk/study/postgraduate/taught/courses/browse-by-school/school-of-medicine>

<https://www.cardiff.ac.uk/study/postgraduate/taught/courses/browse-by-school/school-of-pharmacy-and-pharmaceutical-sciences>

### Abertawe

<https://www.swansea.ac.uk/cy/dynolaciechyd/astudiaeth-ol-raddedig-yng-ngholeg-y-gwyddorau-dynol-ac-iechyd/>

<https://www.swansea.ac.uk/cy/ol-raddedig/addysgir/meddygaeth/>

### Bangor

<https://www.bangor.ac.uk/cy/astudio/ol-raddedig> (Gwyddorau Iechyd a Gofal)

<https://www.bangor.ac.uk/cy/astudio/ol-raddedig> (Yr Ysgol Feddygol)

### Glyndŵr

<https://www.glyndwr.ac.uk/cy/CyrsiauOl-raddedig/>

### Manylion Cyswllt

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu angen eglurhad pellach, anfonwch e-bost i [HEIW.EdCommissioning@wales.nhs.uk](mailto:HEIW.EdCommissioning@wales.nhs.uk) neu [ETfinance.HEIW@wales.nhs.uk](mailto:ETfinance.HEIW@wales.nhs.uk)

